**Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA1884945

Adrian Wilcock
Prif Gynllunydd
Polisi Cynllunio a Gweithredu
Yr Economi a'r Amgylchedd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Canolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 6YB

20 Gorffennaf 2023

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen: Cytundeb Cyflawni Cychwynnol – Yr Ail Gynllun Newydd**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)**

Diolch am eich e-bost ar 18 Gorffennaf yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Cyflawni arfaethedig ar gyfer eich Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae’r cais hwn i gyflwyno Cytundeb Cyflawni newydd yn dod o ganlyniad i'r awdurdod bleidleisio'n ffurfiol i dynnu'r Cynllun Datblygu Lleol yr oeddech yn ei ddatblygu yn ôl ar 19 Ebrill. Yn ei hymateb i'r Cynghorydd Hunt (yr Arweinydd) dyddiedig 3 Mai, cadarnhaodd y Gweinidog Newid Hinsawdd nad oedd o'r farn y dylem ymyrryd â'r broses o dynnu'r cynllun yn ôl, a chytunodd y dylai'r Cyngor ddechrau gwaith ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd cyn gynted ag y bo modd.

Mae paratoi Cynllun Datblygu Lleol yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru.  Mae bod â chynllun cyfredol ar waith yn sail i'r holl system gynllunio yng Nghymru, ac mae'n ategu ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu a arweinir gan gynlluniau. Mae dulliau rheoli prosiect effeithiol a thîm sydd â'r holl adnoddau sydd eu hangen yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yn Ffigurau 2.1 a 2.2 o'r Cytundeb Cyflawni, gyda 3.3 blynedd i gynllunio'r cynllun a chyfnod llithriant ychwanegol o dri mis. Yn fras mae'r amserlen yn cyd-fynd â'r gofynion yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), gan gydnabod bod gan eich awdurdod gynllun ar waith eisoes, wedi'i ategu gan nifer o ddogfennau tystiolaeth.

Prawf cadernid y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn wrth iddo gael ei archwilio yw a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb Cyflawni, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau. Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos ei fod yn cydymffurfio'n gyffredinol â Chymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ffaith bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi ymrwymo i lunio cynllun newydd. Mae'r Cytundeb Cyflawni yr ydych wedi'i gyflwyno'n cynnwys dadansoddiad manwl o'r amserlenni ar gyfer pob cam o'r Cynllun Datblygu Lleol (yn Ffigur 2.2) gyda dyddiad mabwysiadu dangosol ym mis Hydref 2026.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni yr ydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau ein bod yn cytuno** i'r amserlen a amlinellir yn Ffigurau 2.1 a 2.2 fel y darperir ar ei chyfer gan adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (fel y'u diwygiwyd) 2005.

Dylech nawr wneud yn siŵr bod y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Rheoliad 10.

Yn gywir,

[redacted]

**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Chief Planner**

**CC:**

Robert Murray, Prif Gynllunydd
robert.murray@torfaen.gov.uk

Richard Lewis, Pennaeth Cynllunio a Datblygu
Richard.Lewis@torfaen.gov.uk